

COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO A  
GYNHALIWYD YN O BELL - TRWY DIMAU MICROSOFT DYDD GWENER, 18 MEHEFIN  
2021, AM 14:00

Presennol

Y Cyngorydd LM Walters – Cadeirydd

CA Green  
AJ Williams

JE Lewis  
PA Davies

B Sedgebeer  
A Hussain

RM Granville  
E Venables

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

MJ Kearn, P Davies a/ac TH Beedle

Swyddogion:

|                   |                                                     |
|-------------------|-----------------------------------------------------|
| Simon Roberts     | Uwch Ymchwilydd Twyll                               |
| Deborah Exton     | Dirprwy Bennaeth Cyllid dros dro                    |
| Mark Thomas       | Pennaeth Gwasanaeth Archwilio Rhanbarthol           |
| Samantha Clements | Archwilio Cymru                                     |
| Sarah-Jane Byrne  | Rheolwr Awdurdod Lleol, Swyddfa Archwilio Cymru     |
| Mark Galvin       | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Gill Lewis        | Pennaeth Cyllid a Swyddog 151 Dros Dro              |
| Michael Pitman    | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau      |
| Nigel Smith       | Rheolwr Cyllid                                      |
| Eilish Thomas     | Rheolwr Cyllid – Rheoli Ariannol a Chau             |
| Jason Blewitt     |                                                     |

Aelod Llyvg:

Mrs Josephine Williams

245. ETHOL CADEIRYDD

Derbyniwyd dau enwebiad ar gyfer safle'r Cadeirydd, a secondiwyd y ddau ohonynt yn briodol, sef y Cyngorydd L Walters a'r Cyngorydd E Venables.

Yn dilyn pleidlais ar y penodiad, bu

PENDERFYNIAD:

Drwy bleidlais fwyafrifol, penodir y Cyngorydd Walters yn Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Derbyniodd y Cyngorydd Walters y Gadair.

246. ETHOL IS-GADEIRYDD

Enwebwyd y Cyngorydd E Venables yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Cafodd yr enwebiad hwn ei secondio'n briodol. Ni chafwyd unrhyw enwebiadau pellach.

PENDERFYNIAD:

Bod y Cyngorydd Venables yn cael ei benodi'n Is-gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer y flwyddyn i ddod.

247. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim.

248. CADARNHAU COFNODION

PENDERFYNIAD:

Bod Cofnodion y cyfarfod Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 22 Ebrill 2021 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir.

249. COFNOD GWEITHREDU'R PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

Cyflwynodd yr Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau adroddiad, a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y Cofnod Gweithredu, a ddyfeisiwyd fel ffordd o olrhain y penderfyniadau a wnaed gan y Pwyllgor wrth arfer ei swyddogaethau.

Dywedodd fod y Cofnod Gweithredu wedi'i gyflwyno i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'i fod wedi'i atodi yn Atodiad A i'r adroddiad eglurhaol. Amlinellodd y camau gweithredu a restrir yn yr Atodiad gyda'r cynnydd a wnaed hyd yma ar bob un o'r rhain.

Dywedodd y Cadeirydd fod y cam cyntaf ar y traciwr wedi'i gynnwys yn y cyfarfod diwethaf ac felly y gellid ei liwio'n llwyd i ddangos ei fod wedi'i gwblhau.

Nododd Aelod eiriad y frawddeg 'action to be brought to committee' a dywedodd y dylid diwygio hyn i 'brought'.

Soniodd Cynrychiolydd Archwilio Cymru nad oedd yr Adroddiad Cynaliadwyedd Ariannol ar agenda'r cyfarfod heddiw, ond y byddai hyn yn cael ei drafod yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor a drefnwyd ar gyfer mis Gorffennaf 2021.

PENDERFYNIAD:

Bod y Pwyllgor wedi nodi'r adroddiad yn amodol ar y newidiadau uchod.

250. ADRODDIAD PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO - ARCHWILIO CYMRU

Cyflwynodd y Rheolwr Archwilio Ariannol adroddiad a oedd yn nodi'r cynnydd ar gyfer y flwyddyn, gan gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith archwilio ariannol a pherfformiad a wnaed, ac sydd i'w wneud, gan Archwilio Cymru, ac i gyflwyno cyflwyniad i'r Pwyllgor ar y Fenter Twyll Genedlaethol.

Amlinellodd Cynrychiolydd Archwilio Cymru y gwaith archwilio ariannol a oedd yn cwmpasu statws y pynciau a restrir yn Atodiad A i'r adroddiad.

Eglurodd Cynrychiolydd Archwilio Cymru fod cynnydd pellach wedi'i wneud gyda'r rhain a dywedodd fod y llythyr terfynol ar bwnc Cynllunio Adferiad newydd gael ei anfon at y cyngor yr wythnos hon. Ychwanegodd fod adroddiad terfynol hefyd wedi'i gyhoeddi ar bwnc y Cyngor Digidol. Esboniodd fod nifer o'r pynciau yn y camau cynnar ac nad oeddent wedi dechrau eto ond bod llawer wedi dechrau a'u bod yn y cyfnod cwmpasu.

Cydnabu'r Cadeirydd fod nifer o ddarnau o waith yn y cyfnod cwmpasu, ond ni ddarparwyd dyddiadau i ddangos pryd y byddent yn debygol o gael eu cwblhau. Gofynnodd a fyddai'r dyddiadau hyn, neu ddyddiadau bras, ar gael i'r Pwyllgor, gan ei

bod yn ymwybodol o'r posibilrwydd y gallai staff CBSP gael eu llethu o dderbyn yr holl waith ar unwaith.

Eglurodd Cynrychiolydd Archwilio Cymru eu bod yn bwriadu cwblhau'r darnau hyn o waith o gwmpas tymor yr Hydref, ond roedd llawer iawn o waith cwmpasu i'w wneud o hyd, felly ni allai sicrhau amserlen benodol ar hyn o bryd.

Gofynnodd yr Aelod Lleyg am yr hyn a ddysgwyd o'r flwyddyn ddiwethaf, y newid a ddechreuwyd, ac os manteisiwyd ar unrhyw gyfleoedd a gafwyd, a beth oedd y cynlluniau i gydweithio a rhannu gwybodaeth â Llywodraeth Cymru yn hyn o beth. Dywedodd Cynrychiolydd Archwilio Cymru fod y tîm a fu'n gweithio ar hyn yn cyfarfod â CLILC i drafod hyn yn y dyfodol. Yn sgil sgysiau gydag Awdurdodau Lleol eraill, cydnabuwyd bod angen cydweithio, a dyna oedd consensws cyffredinol pob sgwrs wrth drafod y dyfodol.

Gofynnodd y Cadeirydd i ble yr anfonwyd adroddiadau o fewn CBSP, gan fod nifer o adroddiadau yn rhai mwy amhenodol a gallai fod yn llai amlwg i ba le'r oedd angen iddynt fynd, h.y. y pwynt cyswllt. Dywedodd Cynrychiolydd Archwilio Cymru fod nifer o gysylltiadau allweddol wedi'u defnyddio a'u bod yn credu y byddai'r adroddiadau hyn yn cael eu dosbarthu i uwch swyddogion CBSP, ond y byddai'n gwirio manylion hyn, ac yn dychwelyd at y Pwyllgor gyda'r manylion.

Rhoddodd Cynrychiolydd Archwilio Cymru gyflwyniad ar y Fenter Twyll Genedlaethol (NFI) gan roi manylion ar y Fenter ei hun, a chynnwys elfennau cysylltiedig â hyn. Byddai'r cyflwyniad yn cael ei rannu â'r Aelodau yn dilyn y cyfarfod.

Gofynnodd Aelod a oedd unrhyw risgiau diogelwch gyda'r system NFI.

Eglurodd Cynrychiolydd Archwilio Cymru fod yr holl ddata wedi'u trin yn unol â chyfreithiau Diogelu Data, a phan oedd data newydd yn cael ei gyflwyno bod sgysiau wedi'u cynnal gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth i sicrhau fod y data hwnnw yn cael eu trin yn yr un modd. Pan fo angen gweithredu, byddai swyddogion y Fenter yn darparu digon o dystiolaeth o dwyll neu'r risg o gyflawni twyll. Ychwanegodd bod y wybodaeth a gedwir wedi'i harchwilio yn unol â safonau diogelwch cenedlaethol Llywodraeth Cymru.

Gofynnodd Aelod sut y daethpwyd o hyd i dwyll hunaniaeth o ran pasbortau a thrwyddedau gyrwyr pan oedd y deiliad wedi marw. Eglurodd Cynrychiolydd Archwilio Cymru fod dulliau o baru manylion o fewn y Fenter wedi helpu i atal camddefnydd o'r math hwn o adnabyddiaeth. Un enghraifft oedd gwybodaeth a rannwyd gan Heddlu Metropolitaidd er mwyn helpu i baru data.

Gofynnodd Aelod faint o'r arian a nodwyd mewn twyll a gafodd ei ddychwelyd i'r pwrs cyhoeddus.

Eglurodd Cynrychiolydd Archwilio Cymru fod y swm tua 50% o'r arian, a bod hyn oherwydd nifer o resymau, un ohonynt oedd bod llawer o'r twyllwyr eisoes wedi gwario'r arian cyn iddynt gael eu dal ac felly nad oedd modd iddynt ei ad-dalu.

Gofynnodd Aelod a oedd y Fenter yn edrych ar batrymau neu dueddiadau o ran canfod twyll. Dywedodd cynrychiolydd Archwilio Cymru nad oedd unrhyw broffilio wedi'i wneud, ac ymdriniwyd â phob achos o dwyll ar sail unigol.

Gofynnodd Aelod a oedd unrhyw broblemau gyda'r Fenter a/neu ganfod twyll a oedd yn werth ei nodi. Dywedodd Cynrychiolydd Archwilio Cymru fod ambell i bariad a wneir ddim yn dwyll neu'n gamgymeriadau, ond yn hytrach o ganlyniad i faterion ansawdd data neu ganlyniadau cadarnhaol anghywir. Ychwanegodd fod yn rhaid ystyried y

wybodaeth yn ofalus, wrth ddarparu gwybodaeth yn ôl i gyrff, gan nad oedd yr holl wybodaeth o'r fath a ddarparwyd yn dwyllodrus.

Gofynnodd Aelod a ellid defnyddio'r system NFI er budd pobl a oedd â hawl i gael mwy o fudd-daliadau, a hefyd i atal pobl a oedd yn gor-hawlio'n anfwriadol rhag parhau i wneud hynny, fel y gallent osgoi gorfod ad-dalu swm sylweddol o arian yn y dyfodol pe bai'n cael ei adnabod fel twyll posibl.

Eglurodd Cynrychiolydd Archwilio Cymru nad oedd y system yn gallu gwneud hynny ar hyn o bryd ac roedd y ddeddfwriaeth hefyd yn atal y Fenter rhag gwneud hynny. Pe bai hynny'n newid yn y dyfodol, yr oedd yn rhywbeth gwerth ei nodi a'i ymchwilio.

**PENDERFYNIAD:**

Bod y Pwyllgor wedi nodi Adroddiadau Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cymru yn Atodiad A ac Atodiad B i'r adroddiad, a'r llythyr gan Archwilio Cymru yn Atodiad C, yn ogystal â'r cyflwyniad ar y Fenter Twyll Genedlaethol.

**251. DATGANIAD O GYFRIFON 2020-21 (HEB EU HARCHWILIO)**

Cyflwynodd Rheolwr y Grŵp – Prif Gyfrifydd adroddiad gyda'r Datganiad o Gyfrifon (heb ei archwilio) ar gyfer 2020-21 i'w nodi.

Dywedodd fod Datganiad Cyfrifon y Cyngor heb ei archwilio ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 wedi'i atodi yn Atodiad A i'r adroddiad. Roedd y Datganiad Cyfrifon yn cynnwys nifer o ddatganiadau gwahanol yn ymwneud â pherfformiad ariannol a chronfeydd wrth gefn, yn ogystal â'r Datganiad Llywodraethu Blyneddol. Bydd y Datganiad Llywodraethu Blyneddol yn cael ei lofnodi gan Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr unwaith y bydd yr archwiliad wedi'i gwblhau.

Mae'r Cyfrifon yn cynnwys y Datganiadau Ariannol craidd canlynol (tudalennau 16 i 19 o'r Cyfrifon):

- Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr
- Datganiad Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn
- Mantolen
- Datganiad Llif Arian Parod

Darparodd Rheolwr y Grŵp – Prif Gyfrifydd ffigurau yn ymwneud â chronfeydd wrth gefn y Cyngor ac amlinellodd y meysydd allweddol. Rhestrwyd y ffigurau yn adran 4 yr adroddiad.

Eglurodd Rheolwr y Grŵp – Prif Gyfrifydd mai cyfanswm y gwariant cyfalaf yn ystod 2020-21 oedd £23.461 miliwn. Roedd asedau a grëwyd, a wellwyd, neu sy'n cael eu datblygu o ganlyniad i'r gwariant hwn yn cynnwys:

- Hwb y Dwyrain yn Ysgol Brynteg
- Ystafelloedd dosbarth symudol newydd yn Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig
- Hwb Diwylliannol Neuadd y Dref Maesteg

Eglurodd Rheolwr y Grŵp – Prif Gyfrifydd fod y datganiad o gyfrifon bellach yn cael ei archwilio gan Archwilio Cymru ac y byddai fersiwn derfynol o'r cyfrifon yn cael ei ddychwelwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn y cyfarfod ym mis Gorffennaf 2021. Aeth ymlaen i amlinellu adrannau datganiad ariannol Atodiad 1 a oedd yn cwmpasu'r canlynol:

- Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu
- Nodyn i'r Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu
- Gwariant ac Incwm a Ddadansoddwyd yn ôl Natur
- Praeseptau ac ardollau
- Treth y Cyngor
- Grantiau
- Cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio

Diolchodd y Cadeirydd i'r tîm am yr adroddiad gan nodi fod y wybodaeth a ddangoswyd wedi'i ddadansoddi'n dda a'i bod yn haws ei darllen eleni.

Gofynnodd yr Aelod Lleyg a oedd disgwyl i'r Cyngor danwario am y flwyddyn, o ystyried yr anawsterau a wynebier ers dechrau'r Pandemig.

Eglurodd y Prif Swyddog – Perfformiad Cyllid a Newid fod CBSP wedi llwyddo cael gwarged bach o arian parod, ond o ystyried y pwysau tebygol a ddaw yn sgil cau'r cronfeydd caledi ar gyfer busnesau a'r grantiau eraill, fod y gwarged wedi'i ddefnyddio i chwyddo cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, a byddai hynny'n cael ei ddefnyddio i helpu gyda'r pwysau a ragwelir.

Gofynnodd Aelod a ystyriwyd y bobl a oedd wedi cael Covid-19 ac yn dal i fod â symptomau 'covid hir' ac angen cefnogaeth.

Eglurodd y Prif Swyddog – Perfformiad Cyllid a Newid fod cronfa Covid-19 wrth gefn yn bodoli a oedd wedi'i defnyddio ar gyfer argyfyngau. Roedd y gronfa hefyd wedi cael ei chynyddu ar ddiwedd y flwyddyn. Ychwanegodd y byddai'r gronfa'n parhau hyd y gellir rhagweld, ac y byddai'n cwmpasu nifer o agweddau ar faterion sy'n ymwneud â Covid.

Gofynnodd y Cadeirydd am y gorddrafft ar dudalen 92, a'r manylion ynglŷn â hynny.

Eglurodd Rheolwr y Grŵp – Prif Gyfrifydd fod arian i fod i ddychwelyd i'r cyfrifon ar y 31 Mawrth 2021, ond na ddychwelwyd tan ar ôl diwedd y flwyddyn. Dychwelwyd yr arian ychydig ddyddiau'n ddiweddarach, a gofynnodd y tîm am ragor o arian oherwydd y taliadau llog a ysgwyddwyd, ac fe'i dalwyd.

Gofynnodd y Cadeirydd am ddyledwyr, gan fod ffigurau'r tabl ar dudalen 129 wedi codi o 25,168 i 43,489. Gofynnodd beth oedd y rhesymau am hyn.

Eglurodd Rheolwr y Grŵp – Prif Gyfrifydd fod elfen fawr o hyn o ganlyniad i'r trefniant ariannu ar y cyd ar gyfer gofal preswyl rhwng y gwasanaethau cymdeithasol, Bwrdd Iechyd Cwm Taf, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr. Roedd angen gwneud taliad o £9 miliwn ar gyfer gofal preswyl. Roedd cynnydd o £4.75 miliwn mewn dyled cyfrifyfr gwerthiant flwyddyn ar ôl blwyddyn wedi cyfrannu at y ffigur hwn hefyd, ac roedd darpariaeth dyledwyr y Dreth Gyngor wedi cynyddu £2.4 miliwn. Roedd grantiau i fod i gael eu derbyn yn ystod y flwyddyn, ond ni chyrhaeddodd tan ar ôl diwedd y flwyddyn, felly cynyddodd lefel y dyledwyr o £6 miliwn mewn cyfanswm. Roedd y rhan fwyaf o'r materion hyn yn faterion amseru, a byddai llawer ohono'n cael ei adennill drwy gydol y flwyddyn ganlynol.

**PENDERFYNIAD:**

Bod y Pwyllgor wedi nodi'r Datganiad Cyfrifon 2020-21 heb ei archwilio yn Atodiad A i'r adroddiad.

**252. FFURFLEN DRETH HARBWR PORTHCRAWL 2020-21 (HEB EI HARCHWILIO)**

Cyflwynodd Rheolwr y Grŵp – Prif Gyfrifydd adroddiad i geisio cymeradwyaeth ar Ffurflen Harbwr Porthcawl 2020-21 (heb ei archwilio). Amgaewyd Ffurflen Harbwr Porthcawl y Cyngor (heb ei harchwilio) ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 yn Atodiad A.

Eglurodd bod y ffurflen wedi'i chynhyrchu yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) yn hytrach na'r swm i'w ariannu mewn arian parod pan osodir y gyllideb. O ganlyniad, mae'r datganiadau hyn yn cynnwys eitemau fel dibrisiant ar eiddo, peiriannau ac offer, amcangyfrif o gost y diffyg ar y cynllun pensiwn ac addasiadau technegol eraill.

Dywedodd Rheolwr y Grŵp – Prif Gyfrifydd fod yr Harbwr mewn sefyllfa gytbwys ar 31 Mawrth 2021. Cynhyrchodd £257,302 mewn ffioedd, yn bennaf ar gyfer angorfeydd cychod. Y prif eitemau gwariant oedd costau staffio (£74,531) a dibrisiant asedau'r Harbwr (£113,518). Gwerth yr Harbwr a'i asedau cysylltiedig, gan gynnwys y ciosg a'r llithrfa, ar 31 Mawrth 2021 oedd £3,056,781.

Adolygwyd y ffurflen gan Archwilio Mewnol, heb unrhyw ddiwygiadau. Bydd hyn yn awr yn cael ei archwilio gan Archwilio Cymru.

**PENDERFYNIAD:**

Bod y Pwyllgor wedi cymeradwyo Datganiad Harbwr Porthcawl 2020-21 (heb ei archwilio) yn Atodiad A.

**253. DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL 2020-21**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Dros Dro – Cyllid, Perfformiad a Newid adroddiad, a'i ddiben oedd cyflwyno Datganiad Llywodraethu Blynnyddol 2020-21 (AGS) i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w gymeradwyo a'i gynnwys yn Natganiad Cyfrifon 2020-21 (heb ei archwilio).

Cyflwynwyd yr eitem hon gan y Prif Weithredwr.

Atgoffodd yr adroddiad yr Aelodau, fod Rheoliad 5 (2) o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod gynnal, fel rhan o'i drefniadau ar gyfer llywodraethu corfforaethol, adolygiad blynnyddol o lywodraethu ac i adrodd ar reolaeth fewnol.

Eglurodd y Prif Weithredwr fod llywodraethu corfforaethol da angen cyfranogiad gweithredol Aelodau a swyddogion ar draws y Cyngor. Caiff y trefniadau hyn eu hadolygu'n flynyddol a defnyddir y canfyddiadau i ddiweddarau'r AGS. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod diwylliant llywodraethu corfforaethol y Cyngor yn gwella'n barhaus. Roedd cynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynnyddol yn y Datganiad o Gyfrifon yn rhoi arfarniad cyffredinol i'r Pwyllgor o'r rheolaethau sydd ar waith i reoli risgiau allweddol y Cyngor ac wedi nodi lle mae angen gwneud gwelliannau.

Adolygwyd AGS drafft 2020-21 gan y Bwrdd Rheoli Corfforaethol (CMB) a'r Cabinet. Roedd y AGS drafft ynghlwm yn Atodiad A i'r adroddiad.

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod rhai heriau sylweddol iawn i'w datrys wrth symud ymlaen, er enghraifft TGCh, gweithio gartref, cyflawni darpariaethau penodol yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, felly byddai angen adolygu'r ffordd y mae'r Cyngor yn gweithredu yn barhaus er mwyn goresgyn y rhain wrth barhau.

Cadarnhaodd hefyd y bydd yr AGS yn cael ei adolygu fel rhan o'r archwiliad allanol ar y Datganiad o Gyfrifon ac y dylai adlewyrchu unrhyw faterion llywodraethu hyd at y dyddiad y bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn llofnodi Datganiad Cyfrifon 2020-21.

Canmolodd y Cadeirydd y ddogfen a oedd yn cefnogi'r adroddiad eglurhaol ac roedd yn falch o weld bod ôl gwaith ar ei naratif a'i fod yn hawdd ei ddefnyddio. Roedd yn nodi'r camau yr oedd yr Awdurdod wedi'u cymryd i reoli materion gwaith a llywodraethu yn ystod y pandemig yn glir, yn ogystal â'r effaith y mae hyn wedi'i chael ar fusnes y Cyngor.

Cyfeiriodd Aelod at dudalen 212 o'r adroddiad a'r Tabl a nodai'r nodau/amcanion llesiant, a holodd pam nad oedd tic yn erbyn yr amcan o'r enw 'Cymru Gydnerth – a Helpu pobl mewn Cymunedau i fod yn fwy iach a Gwydn.'

Cadarnhaodd y Prif Swyddog Dros Dro – Cyllid, Perfformiad a Newid fod rheswm dros hyn a byddai'n cadarnhau hyn i'r Aelod y tu allan i'r cyfarfod.

Gofynnodd yr Aelod gwestiwn pellach ynglŷn â thudalen 216 a'r Tabl yn manylu ar Hawliadau Cronfa Caledi Llywodraeth Cymru, lle cadarnhawyd fod categorïau penodol wedi'u hatal rhag gwneud ceisiadau i Lywodraeth Cymru o ran adennill costau ac ad-daliadau incwm, gan gynnwys costau TGCh.

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod TGCh wedi ariannu 50% o gostau TGCh, gyda'r Cyngor yn ariannu'r 50% arall. Yn y rhan fwyaf o achosion, fodd bynnag, roedd ceisiadau a wnaed i Lywodraeth Cymru wedi bod yn weddol lwyddiannus ar y cyfan, ers dechrau Covid-19.

Ychwanegodd y Prif Swyddog Dros Dro – Cyllid, Perfformiad a Newid fod rhai ceisiadau wedi bod yn aflwyddiannus gan fod y Cyngor wedi gwneud penderfyniad lleol i ddarparu rhywbeth ei hun neu i barhau i ddarparu rhywbeth, er enghraifft parcio am ddim yng nghanol trefi, ac o'r herwydd roeddent yn anghymwys i gael ad-daliad cost o dan feini prawf Cronfa Caledi Llywodraeth Cymru.

Nododd y Cadeirydd nad oedd adolygiad o Reolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor wedi'i gynnal yn llawn ers 2017, ac felly gofynnodd a oedd unrhyw fwriad i adolygu'r rhain yn y dyfodol agos.

Sicrhaodd y Prif Swyddog Dros Dro – Cyllid, Perfformiad a Newid yr Aelodau fod y rhain wedi'u gwneud lle bu angen newidiadau o bryd i'w gilydd. Byddai diwygiadau pellach fel rhan o astudiaeth bwrdd gwaith yn y dyfodol yn cael eu hargymhell gan y Tîm Cyllid i'r Cyngor llawn, maes o law.

**PENDERFYNIAD:**

Bod y Pwyllgor wedi cymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft 2020-21 yn Atodiad A a chytuno i'w gynnwys yn Natganiad Cyfrifon 2020-21 (heb ei archwilio).

**254. ADRODDIAD ARCHWILIO MEWNOL BLYNYDDOL 2020-21**

Diben yr adroddiad hwn yw rhoi Barn Flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar amgylchedd rheoli'r Cyngor mewn perthynas â llywodraethu, rheoli risg, a rheolaeth fewnol ac i hysbysu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio o waith a pherfformiad Archwilio Mewnol ar gyfer y Flwyddyn Ariannol 2020-21.

Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pennaeth Archwilio Mewnol ddarparu Adroddiad Blynnyddol i gefnogi'r Datganiad Llywodraethu Blynnyddol. Dylai'r adroddiad:

- Gynnwys barn ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu, rheoli risg, a rheolaeth fewnol y Cyngor;
- Cyflwyno crynodeb o'r gwaith archwilio a wnaed;
- Tynnu sylw at unrhyw faterion a allai effeithio ar lefel y sicrwydd a ddarperir;
- Darparu crynodeb o berfformiad y gwasanaeth;
- Trafod y cydymffurfiaid â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus.

Roedd y cynllun archwilio drafft ar gyfer 2020-21 i fod i gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Ebrill 2020, ond roedd Covid-19 wedi arafu'r broses gynllunio gan fod yn rhaid ystyried risgiau newydd sylweddol a ffyrdd newydd o weithio i lywio'r Cynllun. Felly cymeradwywyd Cynllun Archwilio Mewnol 2020-21 ar 10 Medi 2020. Roedd y cynllun yn cydnabod y byddai pwyslais gwahanol oherwydd effaith COVID-19; risgiau penodol sy'n deillio o COVID-19, argaeledd staff archwilio a staff gwasanaeth, a heriau sy'n deillio o weithio o bell. Roedd y cynllun cymeradwy hefyd yn fwy hyblyg er mwyn gallu ymateb i amgylchiadau a digwyddiadau newidiol yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i'r pandemig.

Mae pandemig Covid-19 wedi cael effaith fawr ar sut mae'r Cyngor wedi gorfod gweithredu, ac ar y trefniadau a'r prosesau llywodraethu a roddwyd ar waith i sicrhau y gallai barhau i gefnogi trigolion a busnesau yn ystod y flwyddyn anodd a heriol hon.

Oherwydd Covid-19, newidiwyd sut y cafodd gwaith archwilio ei wneud yn 2020-21 hefyd, ac mae'r holl staff wedi gweithio gartref am y flwyddyn. Cynhaliwyd archwiliadau o bell gan ddefnyddio amryw ddatrysiadau digidol, trwy gynnal cyfarfodydd o bell, rhannu sgriniau, ac anfon data a thystiolaeth yn electronig.

Ceir Adroddiad Blynnyddol yr Archwiliad Mewnol yn Atodiad A, ac mae'n rhoi crynodeb o'r adolygiadau a gynhaliwyd yn ystod 2020-21 gan gynnwys unrhyw waith gwrth-dwyll, yr argymhellion a wnaed, ac unrhyw faterion rheoli a nodwyd. Cwblhawyd cyfanswm o 26 o adolygiadau gyda barn archwilio, a gwnaed cyfanswm o 38 o argymhellion canolig. Mae dadansoddiad manwl wedi'i gynnwys yn Atodiad 1 o'r atodiad.

Ceir cynnydd yn erbyn Cynllun Seiliedig ar Risg 2020-21 yn Atodiad 2. Mae hyn yn manylu ar statws pob adolygiad arfaethedig. Dylid nodi nad oes gan rai adolygiadau a restrir farn archwilio, er enghraifft: cyngor ac arweiniad, cyswllt Archwilio Allanol, Twyll, a gwaith Afreoleidd-dra. Y rheswm am hyn yw bod y gwaith archwilio a wnaed mewn perthynas â'r eitemau hyn wedi'i gynllunio ond nad yw natur y gwaith yn arwain at brofion a ffurfio barn archwilio.

Gan ystyried canlyniadau'r adolygiadau archwilio mewnol a gwblhawyd yn ystod 2020-21, yr argymhellion a wnaed, a'r ffynonellau eraill o sicrwydd, barn flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol y Cyngor ar gyfer 2020-21, oedd bod sicrwydd rhesymol. Ni nodwyd unrhyw faterion rheoli trawsbynciol sylweddol a fyddai'n effeithio ar amgylchedd rheoli cyffredinol y Cyngor ac mae'r gwendidau a nodwyd yn benodol i wasanaethau.

**PENDERFYNIAD:**

Bod Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi rhoi ystyriaeth briodol i'r Adroddiad Archwilio Mewnol Blynnyddol ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2020-21, gan gynnwys Barn Flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol



ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith  
llywodraethu, rheoli risg, a rheolaeth fewnol y Cyngor.

255. **STRATEGAETH ARCHWILIO MEWNOL FLYNYDDOL A CHYNLLUN SEILIEDIG AR RISG 2021-22**

Cyflwynodd y Pennaeth Archwilio Mewnol adroddiad er mwyn rhoi'r Strategaeth Archwilio Mewnol Flynyddol a'r Cynllun Seiliedig ar Risg ar gyfer 2021-22 i Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Eglurodd gefndir hyn trwy ddweud, yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) fod yn rhaid i'r Pennaeth Archwilio Mewnol sefydlu cynlluniau sy'n seiliedig ar risg i bennu blaenoriaethau'r gweithgarwch archwilio mewnol, sy'n gyson â nodau'r sefydliad.

Roedd Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i gynllun archwilio sy'n seiliedig ar risg gael ei lunio i gwmpasu amgylchedd rheoli cyffredinol y Cyngor gan gynnwys risg, llywodraethu a rheolaethau mewnol, cyn belled ag y bo'n ymarferol.

O ran y newidiadau i'r ffordd yr oedd y Cyngor yn gweithredu ers Covid-19, gan gynnwys unrhyw risgiau newydd o ganlyniad i weithio o bell, roedd y rhain wedi'u hystyried a'u cynnwys yn y cynllun archwilio drafft ar gyfer 2021-22.

Mae dogfen ddrafft y Strategaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2021-22 ynghlwm ag Atodiad A i'r adroddiad. Dangosodd hyn sut y byddai'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cael ei ddarparu a'i ddatblygu yn unol â Chylch Gorchwyl y Pwyllgor. Byddai'r Strategaeth yn cael ei hadolygu a'i diweddarau'n flynyddol mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid, sef y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y Bwrdd Rheoli Corfforaethol, Archwilwyr Allanol ac Uwch Reolwyr.

Eglurodd y Pennaeth Archwilio Mewnol fod drafft y Cynllun Seiliedig ar Risg Blynnyddol 2021-22 wedi'i lunio yn unol â'r PSIAS. Roedd y cynllun drafft manwl ynghlwm yn Atodiad B i'r adroddiad.

Byddai'r cynllun arfaethedig yn Atodiad B yn cynnig digon o wybodaeth i allu rhoi barn ar ddiwedd 2021-22. Byddai hefyd yn ystyried risgiau a oedd wedi dod i'r amlwg ac a oedd yn parhau, mewn perthynas â pandemig Covid-19 ymhlith eraill.

Gofynnodd yr Aelod Lleyg a roddwyd ystyriaeth i ddatblygu'r Cynllun Archwilio Blynnyddol Seiliedig ar Risg drafft, fel ei fod yn cwmpasu amserlen hirach a mwy strategol y tu hwnt i'r cyfnod blynnyddol, a hynny er mwyn cynnwys strategaethau hirach sydd wedi'u hymgorffori yn y Cynllun, e.e. drwy gael Cynllun 3 Blynedd. Gofynnodd hefyd beth oedd perthynas yr Awdurdodau gwasanaeth ar y cyd gydag Archwilio Cymru, yn enwedig o ran monitro perfformiad a gwelliannau, o ystyried mai pedwar Awdurdod, nid un, sy'n rhan o'r Gwasanaeth Rhanbarthol.

Dywedodd y Pennaeth Archwilio Mewnol, o ran y berthynas ag Archwilio Cymru, ei bod yn gryf, a bod yr un Archwilwyr Perfformiad yn gweithio ar draws y pedwar Cyngor, er bod gwahanol Archwilwyr Ariannol. Cafodd gyfarfodydd hefyd â chynrychiolwyr Archwilio Cymru sy'n cwmpasu'r pedwar Cyngor i rannu cynnydd ar waith ac i godi unrhyw faterion.

O ran cael Cynllun tymor hwy, cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio Mewnol fod hyn wedi digwydd yn y gorffennol, h.y. sefydlu fersiwn 5 neu 3 Blynedd. Fodd bynnag, roedd wedi'i newid i hwyluso dull mwy deinamig yn ystod y blynnyddoedd diwethaf, er mwyn

ymateb yn gyflym i Risgiau ac ati, gan y gall y rhain newid yn gyflym ac mae'n rhaid ymateb iddynt. Mae'r Gwasanaeth Rhanbarthol hefyd yn bwriadu edrych ar rai meysydd gwaith cyffredin ar draws y pedwar Cyngor, er enghraifft Seibrddiogelwch, fel y gellir defnyddio dysgu gan wahanol Gynghorau. Hefyd, mabwysiadwyd dull safonol ar gyfer cynnal archwiliadau, fformatau adrodd ac ati.

Nododd y Cadeirydd fod y gwasanaeth yn dal i fod â nifer o swyddi gwag. Gofynnodd a oedd y Gwasanaeth yn bwriadu mabwysiadu dull llwyth ffrynt i gwmpasu gwaith sy'n gysylltiedig ag Archwilio nes i'r rhain gael eu llenwi, drwy ddefnyddio SWAP neu ddarparwr allanol arall, neu a oedd yn fwriadu llwytho'r ôl-lwytho hyd nes y byddai staff addas yn eu swyddi ac wedi'u hyfforddi'n llawn.

Dywedodd y Pennaeth Archwilio Mewnol fod swyddi gwag o fewn y Gwasanaeth o hyd ond bod y strwythur wedi'i gwblhau a'r gobaith oedd y gellid gwneud cynnydd o ran llenwi'r rolau yn yr Hydref. Byddai SWAP, neu ddarparwr allanol arall, yn parhau i gael ei ddefnyddio i gwblhau rhai archwiliadau ynghyd ag Archwilio Mewnol sydd hefyd yn gwneud y gwaith hwn. Felly, y bwriad oedd, nid i lwytho neu ôl-lwytho gwaith, ond i rannu'r gwaith dros y flwyddyn, gan fod angen ystyried argaeledd a phwysau ar staff yr Adran Gwasanaethau hefyd er mwyn gallu neilltuo amser i archwiliadau.

**PENDERFYNIAD:**

Ystyriodd a chymeradwyodd y Pwyllgor y Strategaeth Archwilio Mewnol ddrafft (Atodiad A i'r adroddiad) a'r Cynllun Archwilio Seiliedig ar Risg Blyneddol drafft ar gyfer 2021-22 (yn Atodiad B).

**256. BLAENRAGLEN WAITH DIWYGIEDIG 2021-22**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid adroddiad, a'i ddiben oedd ceisio cymeradwyaeth ar gyfer y Flaenraglen Waith Ddiwygiedig ar gyfer 2021-22.

Er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor i sicrhau bod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i bob agwedd ar eu swyddogaethau craidd, amgaewyd y Flaenraglen Waith Ddiwygiedig arfaethedig ar gyfer 2021-22 yn Atodiad A (i'r adroddiad).

Ym mharagraff 4.2 o'r adroddiad dangoswyd yr eitemau y trefnwyd i'w cyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 22 Gorffennaf 2021.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog Dros Dro – Cyllid, Perfformiad a Newid y gallai eitemau ychwanegol ar yr agenda gael eu cyflwyno i'r Pwyllgor wrth i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ddod i rym, yn enwedig mewn perthynas â chyfrifoldebau newydd y Pwyllgor mewn o ran perfformiad a chwynion, a byddai'r rhain yn cael eu hychwanegu at y Flaenraglen Waith yn ôl yr angen.

O ystyried bod cyfnod sylweddol o amser rhwng y cyfarfod a drefnwyd ar 22 Gorffennaf a'r Pwyllgor nesaf a drefnwyd ym mis Tachwedd 2021, cytunodd yr Aelodau, yn dilyn cyfarwydddeb gan Swyddogion, y dylid cynnull cyfarfod pellach i ystyried busnes yr agenda sy'n weddill ym mis Medi ar ddyddiad i'w ystyried a'i gadarnhau yn y dyfodol agos.

Roedd yr adroddiad hefyd yn cadarnhau y byddai'r cyfarfod a drefnwyd yn wreiddiol ym mis Ebrill y flwyddyn nesaf yn cael ei gynnal ar 31 Mawrth 2022, a hynny oherwydd yr etholiadau lleol sydd i'w cynnal ym mis Mai 2022, a'r cyfnod cyn yr etholiad cyn hynny.

**PENDERFYNIAD:**

Bod y Pwyllgor wedi ystyried a chymeradwyo'r Flaenraglen Waith arfaethedig wedi'i Diweddarau ar

gyfer 2021-22, yn ogystal â chytuno i gynnal  
Pwyllgor ychwanegol ar ddyddiad y cytunir arno  
rywbryd ym mis Medi 2021.

257. **EITEMAU BRYD**

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 16:30